# Monitro eich arferion gwaith eich hun

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal adolygiad o'ch arfer eich hun.  Mae'n cynnwys monitro a gwerthuso ansawdd eich gweithgareddau gwaith a'r deilliannau, a chymryd camau priodol i gefnogi gwelliant parhaus.  Gall fod angen monitro ac archwilio at ddibenion lleol, rhanbarthol neu genedlaethol.

Mae angen i chi ddangos eich bod yn gallu cymhwyso gweithdrefnau a safonau ansawdd perthnasol i'ch arferion gwaith a nodi unrhyw wyriadau rhag y rhain.  Mae angen i chi ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i gefnogi'ch gweithgarwch monitro, gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr.  Byddwch yn rhoi gwybod am enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â safonau ansawdd ac yn nodi a defnyddio cyfleoedd i wella ansawdd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. neilltuo gweithgareddau monitro o fewn eich gwaith yn rheolaidd, yn unol â gofynion cyfreithiol, proffesiynol a gofynion y sefydliad
4. addasu amlder y monitro lle bo angen i sicrhau cydymffurfiaeth â systemau ansawdd, a phryd bynnag y caiff risgiau eu hamlygu
5. monitro'ch gweithgareddau gwaith a'r deilliannau yn ôl y safonau a'r dangosyddion ansawdd perthnasol
6. cael at wybodaeth o ffynonellau priodol fel y bo'n berthnasol i'r gweithgarwch monitro
7. cael y data cywir a chyflawn sy'n berthnasol i'r gweithgarwch monitro
8. nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gweithgareddau gwaith a deilliannau, ac amrywiad arnynt, yn ôl dangosyddion ansawdd perthnasol
9. rhoi gwybod i'r bobl berthnasol, yn gywir ac yn brydlon, am enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â safonau ansawdd, neu amrywiad arnynt
10. defnyddio canlyniadau'r monitro i wella'ch arferion gwaith a'r deilliannau
11. cael at gymorth priodol i wella'ch ymarfer, lle bo angen
12. gweithredu ar sail unrhyw argymhellion er mwyn gwella perfformiad a deilliannau ansawdd
13. adolygu unrhyw newidiadau i arferion gwaith fel y bo'r gofyn, i gadarnhau a chynnal gwelliannau
14. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. y diben, y dull a'r gofynion ar gyfer monitro'r gweithgareddau gwaith a'r deilliannau, o fewn cwmpas eich ymarfer
4. ystod y gweithdrefnau a'r safonau ansawdd ar gyfer eich maes gwaith a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer monitro ansawdd
5. ystod y systemau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol sy'n berthnasol i'ch maes gwaith a'r disgwyliadau ynghylch eich cyfraniadau atynt
6. ffactorau a all ddylanwadu ar ansawdd eich gweithgareddau gwaith a'r deilliannau, a sut i'w hadnabod
7. sut y gall gwyro o weithdrefnau gweithio cytunedig ddylanwadu ar natur, ansawdd neu ddibynadwyedd y deilliannau sy'n cael eu cyflawni
8. ffynonellau gwybodaeth am sut i helpu monitro a gwerthuso'ch gweithgareddau gwaith a'r deilliannau, a sut i gael at y rhain
9. ystod y data sy'n berthnasol i'r gweithgarwch monitro sydd i'w wneud
10. sut i nodi a gwerthuso amrywiadau mewn arferion gwaith a deilliannau
11. camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd ac amserlenni ar gyfer gwneud hyn mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â safonau ansawdd neu amrywiad arnynt
12. sut i gael at gyngor a chymorth i wella ansawdd
13. am ba hyd y mae'n rhaid cadw cofnodion monitro ansawdd a'r gweithdrefnau ar gyfer cael gwared ar gofnodion monitro
14. pwysigrwydd myfyrio ar eich ymarfer a sut gall y myfyrdod hwnnw helpu i wella'ch ymarfer.
15. y polisïau a'r arweiniad sy'n egluro cwmpas eich ymarfer, systemau ansawdd, yr hyn rydych chi'n atebol amdano a'r berthynas waith rhyngoch chi ac eraill
16. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

Monitro eich arferion gwaith eich hun

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHGEN23 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Gweithwyr iechyd proffesiynol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lechyd, Galwedigaethau Gwasanaethau Personol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Cyfres/Set** | iechyd cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | Monitro, arferion, ymarfer, gwaith, eich hun |